



Enw'r Polisi: Polisi Cyfnod Prawf		Rhif y Polisi: P1415-1387
Perchennog y Polisi: John Cox		
Dyddiad Cyhoeddi: Mis Mawrth 2015	Dyddiad Adolygu: Mis Mawrth 2017	
Deddfwriaeth berthnasol neu arweiniad allanol perthnasol (os yw'n gymwys):		
Dogfennau sy'n cael eu disodli (<i>dyfynnwch Rif P neu L</i>):		
<p>Datganiad Polisi</p> <p>Fel arfer, bydd angen i bob aelod staff newydd gwblhau cyfnod prawf. Bydd y Brifysgol yn gweithredu tair gweithdrefn cyfnod prawf; caiff staff eu dynodi i'r weithdrefn cyfnod prawf sy'n briodol i'w gradd. Bydd pob cyfnod prawf yn cynnwys cam pennu targedau a dau neu dri adolygiad ffurfiol.</p> <p>Nodau/amcanion y Cyfnod Prawf yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar dargedau a fydd yn galluogi'r aelod staff newydd i ddeall gwerthoedd cytunedig y Coleg/Gyfarwyddiaeth a'r Brifysgol a gweithio i'w cyflawni. • Cynorthwyo wrth sefydlu staff newydd, a thrwy hyn, helpu i sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon adrannau a'r Brifysgol. • Galluogi aelodau staff ar brawf i ddangos gallu a chymhwysedd yn eu swyddi, o fewn fframwaith cefnogol. • Nodi a diwallu anghenion hyfforddi a datblygu unigol yr aelod staff ar brawf, gan sicrhau eu bod yn gyson â nodau, amcanion a gwerthoedd y Coleg/Adran a'r Brifysgol. • Sicrhau bod pob aelod staff ar brawf yn derbyn pob cyfle i wireddu ei botensial llawn yn ystod y cyfnod prawf. • Darparu proses i'w dilyn os na fydd yr aelod staff newydd yn perfformio yn unol â'r safonau gofynnol. <p>Mae'n rhaid i'r proses asesu cyfnod prawf fod yn wrthrychol a heb wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn unol â'r Polisi Cydraddoldeb.</p>		
Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:		
<p>Gweithdrefnau Cefnogol/Dogfennau Arweiniad/Codau Ymarfer, gyda Rhifau Polisi a dolenni: Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Proffesiynol, Gradd 1 i 6 Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Proffesiynol ac Academaidd Perthynol, Gradd 7 i 10 Gweithdrefnau Cyfnod Prawf ar gyfer Staff Academaidd Ordinhad ar gyfer Terfynu Penodiadau Cyfnod Prawf.</p>		

